Asesiad Cyflym o Dystiolaeth

Beth allwn ni ddysgu gan awdurdodaethau eraill ynghylch atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol

Adroddiad Cryno

Lorraine Radford, Helen Richardson Foster, Christine Barter a

Nicky Stanley

Canolfan Gyswllt ar gyfer Ymchwil Rhyngwladol ar Drais Rhyngbersonol

Ysgol Gwaith Cymdeithasol, Gofal a'r Gymuned, Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn

Ymwadiad

Mae hwn yn Asesiad Cyflym o Dystiolaeth a baratowyd ar gais IICSA. Barn yr awduron yn unig a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Cyflwyniad

Yn dilyn ymarfer tendr cystadleuol, comisiynwyd Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn (UCLan) gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) i gyflawni'r Asesiad Cyflym o Dystiolaeth (REA) hwn.

Mae'r Ymchwiliad yn ystyried pa mor ofalus fu cyrff cyhoeddus a sefydliadau anwladwriaethol eraill yn eu dyletswydd i ofalu am ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio, i ba raddau y deliwyd ag unrhyw fethiannau a pha gamau fydd angen eu cymryd i amddiffyn plant yn well yn y dyfodol.

Yn ei datganiad yn Hydref 2016, cyhoeddodd y Cadeirydd bod yr ymchwiliad yn bwriadu gwneud argymhellion ar gyfer newid wedi eu halinio i, ac ar draws, y pedwar thema ganlynol:

- Diwylliannol: yr agweddau, ymddygiadau a gwerthoedd mewn sefydliadau sy'n ein hatal rhag stopio cam-drin plant yn rhywiol;
- Strwythurol: y fframweithiau deddfwriaethol, llywodraethol a sefydliadol o fewn a rhwng sefydliadau;
- Ariannol: y trefniadau ariannol, cyllido ac adnoddau ar gyfer sefydliadau a gwasanaethau perthnasol; a
- Proffesiynol a gwleidyddol: ffocysu ar arweinyddiaeth, materion proffesiynol ac ymarferol ar gyfer y rhai sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn sefydliadau perthnasol.

I uchafu perthnasedd, mae casgliadau'r REA a grynhoir yn yr adroddiad hwn wedi eu grwpio dan bob un o'r pedwar thema Ymchwiliad yma.

Y prif gwestiwn a osodwyd gan yr Ymchwiliad ar gyfer yr REA oedd: *Beth allwn ni ddysgu o awdurdodaethau, tu allan i Gymru a Lloegr, ynghylch rôl sefydliadau, yn cynnwys sefydliadau gwladwriaethol ac anwladwriaethol atebol gyda chyfrifoldeb dros blant, o ran atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio ar blant?*

Gofynnwyd i'r awduron hefyd ystyried: *Beth mae'r dystiolaeth yn dangos yw'r arfer gorau ar gyfer sefydliadau i atal/nodi/ymateb i gam-drin plant yn rhywiol? A yw'r Deyrnas Unedig yn mabwysiadu'r ymagwedd hon? Os na, a oes enghreifftiau o arfer gorau yn cael eu rhoi ar waith ble gellid darparu enghreifftiau o astudiaethau achos?*

Bydd yr REA hwn y cyntaf mewn cyfres o adolygiadau tystiolaeth mae'r Ymchwiliad wedi eu comisiynu.

Ymagwedd

Cyflawnwyd yr ymchwil rhwng Mawrth a Hydref 2016. Roedd y prosiect yn adolygiad desg yn defnyddio dulliau cydnabyddedig ar gyfer Asesiad Cyflym o Dystiolaeth (REA) (Galvani et al, 2011; Gough, 2007; Khangura et al, 2012; Sherman et al, 1998). Nod REAs, fel adolygiadau systematig, yw nodi ac asesu casgliadau ymchwil ar bwnc penodol yn drylwyr a thryloyw, ond o fewn cyfnod amser mwy cyfyngedig gyda chyfyngiadau ar ehangder y dystiolaeth a gynhwysir.

Roedd cwmpas yr REA yn eang iawn. Yn hytrach nag adolygu ymchwil ar un maes gweithgaredd, fe ystyriodd yr awduron ymdrechion i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio arnynt mewn gwahanol awdurdodaethau ar draws yr ystod lawn o sectorau sefydliadol a sefydliadau sydd o ddiddordeb i'r Ymchwiliad. I reoli'r ystod eang o ddeunydd o fewn cwmpas yr adolygiad, categorïwyd gwahanol fathau o ymatebion sefydliadol a sector fel rhai wedi eu hanelu at:

- *ataliad cychwynnol*, stopio cam-drin plant yn rhywiol (yn cynnwys camfanteisio rhywiol ar blant) rhag digwydd yn y lle cyntaf;
- Gwella'r amddiffyniad o blant a phobl ifanc rhag cam-drin rhywiol trwy wella *nodi, datgeliad, adrodd ac ymatebion*, gan alluogi plant i ddatgelu cam-driniaeth, gwella cydnabyddiaeth ymysg y rhai mewn cyswllt â phlant, yn arbennig wrth sicrhau nad yw plant yn cael eu herlid eilwaith;
- gwella *rheoleiddio a rheolaeth o droseddwyr*, yn arbennig wrth sicrhau nad ydynt yn aildroseddu;
- darparu gwell *cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr,* cynorthwyo *adferiad* a dadwneud y niwed ac anghyfiawnder a achoswyd i ddioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd.

Cydnabuwyd bod yna orgyffwrdd rhwng y meysydd hyn, ac y bydd nifer o wasanaethau o bosibl yn darparu ymatebion na fyddant yn ffitio'n dwt dan un pennawd penodol.

Gan ddefnyddio termau chwilio a gytunwyd, chwiliwyd ar gronfeydd data ar-lein (Embase, ASSIA, PsychInfo, Social Work Abstracts a Criminal Justice Abstracts) a gwefannau am erthyglau ac adroddiadau ymchwil oedd wedi derbyn adolygiad gan gymheiriaid.[1] Roedd y chwiliadau wedi eu cyfyngu yn y cyfnod rhwng 2004 a 2016, er y cynhwyswyd ymchwil cyn y dyddiadau hyn trwy fynd ar drywydd cyfeiriadau o erthyglau a ddarllenwyd os gwelwyd eu bod yn arbennig o berthnasol i'r adolygiad. Dim ond cyhoeddiadau yn y Saesneg mewn cyfnodolion sy'n destun adolygiad gan

[1] Cynhwyswyd 36 awdurdodaeth, yn cynnwys Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon, UDA, Canada, Awstralia, Seland Newydd a'r 28 o wledydd yr UE, yn ogystal â Norwy a Gwlad yr Iâ.

gymheiriaid a gynhwyswyd yn y chwiliadau o gronfeydd data ar-lein. Cyflawnwyd chwiliad am lenyddiaeth 'lwyd' (sef cyhoeddiadau nad ydynt ar gael mewn cyfnodolion sy'n destun adolygiad gan gymheiriaid) yn defnyddio dulliau peli eira o chwilio am lenyddiaeth berthnasol atodol mewn erthyglau a ddarllenwyd[2], chwilio gwefannau sefydliadau allweddol yn y sector gwirfoddol neu lywodraeth mewn awdurdodaethau perthnasol, a sefydlu chwiliadau allweddeiriau ar gyfer cyhoeddiadau ymchwil ar Google.

Aseswyd ansawdd yr ymchwil a ganfuwyd yn defnyddio pum offeryn asesiad ansawdd ymchwil safonol a gytunwyd gydag IICSA[3]. Dychwelodd chwiliadau ar-lein 12,169 o gofnodion i'w sgrinio. Wedi sgrinio, graddiwyd 1,460 o astudiaethau perthnasol ar gyfer ansawdd gydag 88 o astudiaethau ansawdd uchel wedi eu nodi i'w cynnwys yn yr adolygiad. I ddelio â'r bylchau a gododd yn yr ymchwil yn ystod sgrinio ansawdd, gofynnwyd i'r awduron nodi enghreifftiau o ymchwil ble roedd y dystiolaeth yn addawol [4] ond heb fodloni safonau ansawdd hyd yma. Aseswyd llenyddiaeth lwyd i ystyried a oedd y dystiolaeth ymchwil yn addawol neu'n ddiffygiol. Gofynnwyd hefyd i'r awduron ddelio â chyd-destun cyfredol ymchwil, polisi ac ymarfer yng Nghymru a Lloegr. Cyflawnwyd hyn trwy ail archwilio'r llenyddiaeth a nodwyd parthed awdurdodaethau eraill ar gyfer cyd-destun perthnasol, gan gyflawni chwiliadau ar-lein atodol o ymarfer yng Nghymru a Lloegr, yn bennaf yn y llenyddiaeth lwyd, a mynd ar drywydd cyfeiriadau pellach. Cyfeirir yn llawn at y deunyddiau atodol a drafodir yn llyfryddiaeth yr adroddiad[5].

Echdynnwyd data o'r astudiaethau a gynhwyswyd yn defnyddio'r dalenni cofnodi data. Cafodd casgliadau o'r adolygiadau systematig, astudiaethau meintiol ac astudiaethau ansoddol eu syntheseiddio a'u strwythuro o amgylch y themâu a gododd yn ystod yr adolygiad. Cam olaf yr asesiad oedd asesiad pwysau tystiolaeth a asesodd pedwar maes: ansawdd yr ymchwil; p'un a yw'r ymchwil yn benodol a phenodol i ateb cwestiwn yr adolygiad; pa mor gynorthwyol/ddefnyddiol yw'r wybodaeth hon ar gyfer delio â chwestiwn yr adolygiad ac os yw wedi ei gyflawni'n foesegol neu beidio[6].

---

[2] Mae'r dull peli eira yn cyfeirio at yr arfer o ddilyn dyfyniadau neu gyfeiriadau mewn dogfen berthnasol i ganfod llenyddiaeth arall ar yr un pwnc. Mae'r dogfennau atodol hyn yn arwain at ddeunydd eraill sydd, yn eu tro, hefyd yn cynnwys cyfeiriadau pellach a allai fod yn berthnasol i'r adolygiad.

[3] Mae copïau o'r meini prawf asesu ansawdd ymchwil ar gyfer adolygiadau systematig a dadansoddiadau meta; astudiaethau gwerthuso meintiol; astudiaethau gwerthuso ansoddol; astudiaethau heb werthuso meintiol; astudiaethau heb werthuso ansoddol wedi eu cynnwys yn Atodiad B yr adroddiad ymchwil llawn.

[4] Nodwyd bod astudiaeth yn addawol ac angen ymchwil pellach: oedd yn ymchwil ansoddol wedi ei strwythuro'n dda oedd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar brosesau, gweithrediad neu os oedd wedi ystyried materion amrywiaeth neu roedd yna rywfaint o ddata gwerthuso yn awgrymu effaith bositif ar agweddau neu ymddygiadau, ond nad oedd gwerthusiadau arbrofol wedi eu cynnal eto; neu os oedd profion arbrofol yn dangos effeithiau positif, ond cyfyngedig hyd yma. I gael ei raddio'n addawol, roedd yn rhaid i raglenni fod wedi eu ffurfioli i'r fath raddau fel y byddai asiantaethau allanol yn cael mynediad at wybodaeth y rhaglen (fel llawlyfr/gwybodaeth rhaglen a fyddai ar gael mewn ffynhonnell gyhoeddus).

[5] Ceir disgrifiad llawn o'r dulliau yn y prif adroddiad ymchwil. I gadw'r crynodeb yn ymarferol, ni nodir cyfeiriad at bob astudiaeth a chyfeiriad a drafodir yn yr adroddiad llawn yma.

[6] Gough, D. (2007) Weight of evidence: a framework for the appraisal of the quality and relevance of evidence yn J. Furlong ac A Oadcea (Gol.) Applied and Practice Based Research Special Edition *Research Papers in Education*22 (2) 213-228

Canlyniadau

Mae casgliadau'r crynodeb hwn o'r adroddiad REA llawn wedi eu trefnu i ddwy adran. Yn gyntaf, cyflwynir y negeseuon eang ond allweddol o'r REA. Yna mae'r adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth yn ôl y pedwar thema ar gyfer newid a gyhoeddwyd gan y Cadeirydd fel ffocws gwaith yr Ymchwiliad yn Hydref 2016. O fewn pob un o'r themâu hyn, fe ystyrir y casgliadau parthed yr ymatebion sefydliadol a sector a gyflwynir ar dudalen tri.

Canfyddiadau allweddol

Mae cam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant) yn fater cymhleth iawn ac fe ymddengys ein bod yn gwybod mwy am beth sydd *ddim* yn gweithio'n dda ym maes diogelu plant, na *beth sy'n effeithiol*. Nid oes yr un awdurdodaeth yn gwneud popeth yn 'iawn'. Efallai na fydd rhywbeth sy'n gweithio mewn un cyd-destun yn gweithio'n dda rhywle arall oherwydd y gwahaniaethau mewn ffactorau diwylliannol, economaidd a gwleidyddol ac mewn fframweithiau sefydliadol a chyflawni gwasanaeth.

Fodd bynnag, mae yna rywfaint o ymchwil cadarn a thystiolaeth addawol y gellid eu datblygu ymhellach i hysbysu gwaith yng Nghymru a Lloegr. Y casgliadau cyffredinol o'r adolygiad hwn yw:

- Bod ymagweddau gydag adnoddau digonol, cynhwysfawr, cydlynol, amlsector sy'n ceisio atal *ac* ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio arnynt yn debygol o fod y mwyaf effeithiol.
- Mae ymatebion effeithiol fwyaf tebygol o fod y rhai sydd: yn delio â'r amrywiaeth yn natur ac effaith cam-drin plant yn rhywiol; sy'n briodol i'r oed; ac sy'n cydnabod y gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng gwahanol fathau o gam-drin rhywiol a chamfanteisio rhywiol ar draws gwahanol leoliadau a pherthnasau.

Mae'r REA yn cadarnhau casgliadau'r ymchwilwyr eraill, nad yw'r dystiolaeth ymchwil ar atal ac ymateb i bob ffurf o gam-drin ac esgeuluso plant wedi ei ddatblygu'n ddigonol ac yn gyfyngedig mewn sawl ystyr (Ward a Donnelly, 2015). Mae cyfyngiadau a bylchau penodol mewn ymchwil ar ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys:

1. Diffyg ffocws ar ddeilliannau a gwerthusiadau cadarn o effaith;
2. Ymchwil sydd wedi gwerthuso llwyddiant y pecynnau o ymatebion cydlynu yn hytrach nag ymyraethau unigol mewn un gwasanaeth, megis rhaglen driniaeth
3. Anallu i gymharu a monitro tueddiadau dros gyfnod o amser, ac effaith polisi yn y Deyrnas Unedig ac ar draws gwahanol awdurdodaethau oherwydd diffyg

data, yn arbennig ar gyfraddau amlder a digwyddiadau;

4. Diffyg tystiolaeth neu dystiolaeth gyfyngedig iawn ar bynciau penodol, sy'n amlygu angen am fwy o dystiolaeth parthed:
   - Ysgogwyr galw am wahanol fathau o gam-driniaeth, yn benodol camfanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin ar-lein a cham-drin rhywiol cyfoed ar gyfoed;
   - Ffactorau amddiffynnol ar gyfer cam-drin rhywiol a chamfanteisio;
   - Strategaethau ac ymatebion effeithiol i gam-drin rhywiol rhwng cyfoedion;
   - Cynlluniau iawndal ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol;
   - Ymarferion diogelu mewn sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc;
   - Ymarfer effeithiol i drechu rhwystrau i ddatgeliad ymysg plant iau, bechgyn a phlant sydd wedi eu cam-drin o oed ifanc;
   - Goblygiadau ariannol gwahanol strategaethau ac ymagweddau (yn cynnwys cost effeithlonrwydd cymharol gwahanol ymatebion).

Perthnasedd casgliadau'r REA i themâu'r Ymchwiliad ar gyfer newid

Yn adolygiad Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Cadeirydd ymagwedd thematig i argymhellion ar gyfer newid i sicrhau y byddai gwaith yr Ymchwiliad yn delio â materion sylfaenol sy'n berthnasol i ystod lawn y sefydliadau o fewn ei gylch gwaith. Y pedair thema yw: diwylliannol; strwythurol; ariannol; proffesiynol a gwleidyddol.

O fewn pob un o'r pedair thema allweddol isod, mae casgliadau ynghylch ymatebion sefydliadol a sector i gam-drin plant yn rhywiol wedi eu categoreiddio ymhellach, ble fo'n berthnasol, fel rhai wedi eu hanelu at: fentrau *ataliad cychwynnol*; gwella *nodi, datgeliad, adrodd ac ymatebion*; gwella *rheoleiddio a rheolaeth o droseddwyr*; a darparu gwell *cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr.*

Diwylliannol: delio â'r agweddau, ymddygiadau a gwerthoedd mewn sefydliadau sy'n ein hatal rhag stopio cam-drin plant yn rhywiol

Ataliad cychwynnol

Nid oedd gan yr un o'r awdurdodaethau a gynhwyswyd yn yr REA ymagwedd gynhwysfawr (nac arfer gorau) i ataliad cychwynnol *ac* ymateb. Canfuwyd mwy o wybodaeth am ymdrechion atal yn Awstralia, y Ffindir, Norwy, Sweden ac UDA. Gellir grwpio ymatebion ataliad cychwynnol dan dri math, y rhai sy'n:

- ceisio taclo galw neu leihau ysgogiadau cyflawnwyr a newid agweddau cymdeithasol cyffredinol, arferion ac ysgogwyr cam-drin;
- ceisio lleihau'r risgiau a bregusrwydd plant fel dioddefwyr;

- delio â'r ffactorau sefyllfaol (megis cyd-destun a hygyrchedd amgylcheddol dioddefwr sy'n blentyn i gyflawnwr posibl) a fydd yn cael eu hystyried yn yr adran nesaf.

I newid diwylliant, ac felly agweddau ac ymddygiad, mae angen negeseuon clir o ran beth sy'n hysbys (ac nid yn hysbys hyd yma) ynghylch natur, graddfa, ysgogwyr ac effaith gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys camfanteisio. Defnyddir ymgyrchoedd addysg cyhoeddus a marchnata cymdeithasol i atal cam-driniaeth yn helaeth ar draws y mwyafrif o 28 aelod wladwriaeth yr UE, ond nid ydynt wedi eu gwerthuso'n dda (Povilaitis, 2015). Mae'r diffyg tystiolaeth yma yn cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth o'r credoau ac arferion sy'n dylanwadu ar a chynnal cam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol (Cameron et al, 2015; Povilaitis, 2015). Mae hefyd angen mwy o ymchwil ar yr hyn sy'n ysgogi galw, yn arbennig am gamfanteisio rhywiol, cam-drin ar-lein a cham-drin rhywiol cyfoed ar gyfoed (Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig, 2015).

Dengys ymchwil o'r Unol Daleithiau a Chanada y gall addysg ataliad mewn ysgolion gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth plant a dechrau newid diwylliant, agweddau ac amgylcheddau sy'n cyfrannu i gam-drin (Baker et al, 2013; Tutty, 1997; Walsh et al, 2015).

Y prif negeseuon o lenyddiaeth ymchwil ar gyfer y rhai sydd eisiau defnyddio marchnata cymdeithasol neu'r cyfryngau i godi ymwybyddiaeth, yw y gall hyn fod yn ddefnyddiol fel rhan o raglen atal ehangach os darperir ymdrechion ac adnoddau atodol i atgyfnerthu dysgu (Rheingold et al, 2007). Mae ymgyrchoedd cyfryngau sy'n hyrwyddo negeseuon positif, yn arbennig ar gyfer dynion a bechgyn, yn defnyddio technegau ‘adloniant addysgol’ megis dramâu teledu neu straeon ‘opera sebon’ yn ymddangos i fod yn addawol gyda'r cyrhaeddiad mwyaf ar draws gwahanol awdurdodaethau (Scheepers et al, 2004; Soul City, 2008; Stanley et al, 2016). Ceir tystiolaeth dda o'r Unol Daleithiau ar effaith positif cefnogi rhieni i siarad gyda'u plant am iechyd rhywiol a diogelwch (Miller et al, 2013).

Fodd bynnag, mae angen mwy o waith ar ffactorau amddiffynnol ar gyfer cam-drin a chamfanteisio rhywiol i gynllunio, targedu a phrofi mentrau atal seiliedig ar gryfder ar gyfer grwpiau bregus o blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a chyfoedion.

Nodi, datgeliad, adrodd ac ymatebion

Awgryma ymchwil yn Awstralia bod ymagweddau rhagweithiol i gynnwys y gymuned ehangach mewn nodi ac adrodd wedi cael effaith bositif ar gyfraddau adrodd, arestio, erlyn a chollfarnau ar gyfer achosion cam-drin plant yn rhywiol (Bailey et al, 2015; Mace, 2015). Mae ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach yn rhan bwysig o arfer da, yn arbennig os oes yna rwystrau diwylliannol i adrodd ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol i'r heddlu.

Rheoleiddio a rheolaeth o droseddwyr

Awgryma tystiolaeth o'r REA bod ymatebion triniaeth a ddatblygwyd ar gyfer oedolion yn llai perthnasol i bobl ifanc sy'n cyflwyno gydag ymddygiad rhywiol niweidiol gan mai dim ond cyfran fechan sy'n debygol o fynd ymlaen i ymddygiad rhywiol troseddol fel oedolion (Dopp et al, 2015; St Amand et al, 2008). Yn y blychau testun isod ceir dwy enghraifft o arferion addawol sy'n ceisio delio â rhwystrau diwylliannol i atal cam-drin plant yn rhywiol.

Blwch 1: Ymarfer addawol – ataliad ac ymatebion cynnar ar gyfer cyflawnwyr
Mae yna rai casgliadau gwerthuso addawol o linellau cymorth a gwasanaethau ar gyfer oedolion yn y gymuned sy'n poeni am eu hymddygiad eu hunain neu rywun arall neu deimladau rhywiol tuag at blant. Mae *Stop It Now!* yn cynnig gwasanaethau o'r fath yn yr Unol Daleithiau, Awstralia, Canada, Iwerddon, yr Iseldiroedd a'r Deyrnas Unedig. Yn dilyn y Model Bywydau Da o weithio gyda throseddwyr rhyw (Ward et al, 2012), delir ag ysgogiadau'r rhai sy'n galw ac maent yn cael eu hannog, trwy gamau gweithredu a gytunir, i ddatblygu bywyd ble bodlonir eu hanghenion dynol mewn ffordd bositif a ble nad yw plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae gwerthusiad a ariannwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o *Stop It Now!* yn y Deyrnas Unedig a'r Iseldiroedd yn dangos bod rhai troseddwyr rhyw plant gwirioneddol a phosibl yn fodlon cysylltu, gydag adborth positif gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd hefyd (Brown et al, 2014). Adroddir dulliau tebyg yn targedu'r rhai sy'n poeni am eu tueddiadau ymosodol mewn gwledydd eraill megis Sweden a'r Almaen (Cameron et al, 2015).

Blwch 2: **Ymarfer addawol – pobl ifanc gydag ymddygiad rhywiol niweidiol**
Mae yna gasgliadau addawol o adolygiad systematig (St Amand, Bard a Silovsky, 2008) ac ymchwil yn Seland Newydd (Geary et al, 2011) ac Awstralia (Halse et al, 2012) bod ymgysylltu gyda gwasanaethau triniaeth ar gyfer pobl ifanc gydag ymddygiad rhywiol niweidiol yn well mewn gwasanaethau triniaeth ddiwylliannol briodol, yn y gymuned sy'n annog y teulu neu ddarparwr gofal i gymryd rhan. Roedd mesurau deilliant rhaglen ar gyfer gweithredu teuluol yn gwella os oedd o leiaf un o rieni'r cleient wedi ei gynnwys ac yn gallu mynychu therapi (ni edrychodd yr astudiaethau hyn ar yr effaith ar aildroseddu). Canfu gwerthusiad o driniaeth yn y gymuned yn Awstralia oedd yn edrych ar effaith triniaeth ar aildroseddu bod y cyfraddau uchaf o droseddau rhyw dilynol ymysg pobl ifanc oedd wedi gadael rhaglenni triniaeth yn gynnar (Laing et al, 2014).

Cefnogi dioddefwyr a goroeswyr

Efallai bod ymagweddau therapi yn fwy effeithiol os ydynt wedi eu teilwra i anghenion unigol y plentyn neu berson ifanc, gan ystyried clwstwr, datblygiad,

cyd-destun a chefndir eu symptomau penodol (Harvey a Taylor, 2010). Mae'r dystiolaeth orau a geir ar gyfer triniaeth therapiwtig ar gyfer plant ar therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) sy'n ffocysu ar drawma (Cohen et al, 2004; 2005; 2007; 2011; Manarino et al, 2012) er bod amrywiaeth o ddulliau therapiwtig, er enghraifft y rhai sy'n defnyddio drama neu ddadsensiteiddio ac ailbrosesu symudiadau llygaid (EMDR)[7], hefyd yn addawol (Deblinger et al, 2011; Dietz et al, 2012). Mae yna hefyd ddatblygiadau newydd ac addawol mewn ymagwedd fodiwlaidd i driniaeth, sy'n delio â phroblemau lluosog cydfodol megis gorbryder ac iselder mewn un rhaglen yn hytrach na delio â phob cyflwr ar wahân. Mae'r rhain yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig ac mewn awdurdodaethau eraill (Bentovim ac Elliott, 2014).

Strwythurol: ystyried y fframweithiau deddfwriaethol, llywodraethol a sefydliadol o fewn a rhwng sefydliadau

Ataliad cychwynnol

Mae ymchwil polisi cymdeithasol cymharol, traws genedlaethol wedi canfod gwahanol ymagweddau cenedlaethol a lleol i drefniant a llywodraethu systemau amddiffyn plant (Gilbert et al, 2011). Er y gwyddom fod ymatebion amlasiantaethol nad ydynt wedi eu cydlynu'n dda yn annefnyddiol, ychydig iawn o ymchwil empirig sydd ar effeithlonrwydd cymharol gwahanol asiantaethau neu drefniadau amddiffyn plant. Er enghraifft, ni wyddom a yw llywodraethu Byrddau Lleol Diogelu Plant yn Lloegr yn fwy neu'n llai effeithiol o ran diogelu plant rhag cam-drin rhywiol na strwythuraucyfatebol, lle maent yn bodoli mewn awdurdodaethau eraill. Mae'r ymchwil i'r maes hwn wedi tueddu i fod yn ddisgrifiadol, gan fapio'r strwythurau sefydliadol yn hytrach nag edrych ar eu heffeithlonrwydd (FRA, 2014). Mae hwn yn fwlch yn yr wybodaeth ymchwil.

Mae ataliaeth sefyllfaol yn cyfeirio at strategaethau a strwythurau wedi eu hanelu at leihau cyfleoedd i gam-drin ddigwydd. I'r perwyl hwnnw, gall deddfwriaeth, polisi a strategaethau/fframweithiau cenedlaethol ddarparu amgylchedd sy'n llesteirio a chosbi ymddygiad ymosodol ac yn cefnogi ymdrechion i hyrwyddo ataliaeth a newidiadau mewn agweddau.

Mae gan y Deyrnas Unedig (DU) ddeddfwriaeth cadarn ar reoleiddio troseddau rhyw ac mae wedi arwain ymdrechion ataliad cychwynnol a nodi cynnar ar-lein. Mae Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar werthu plant, puteinio plant a phornograffi plant wedi cefnogi'r galw am fwy o ymdrech i ddeall ac i reoleiddio'r galw am wasanaethau rhywiol sy'n dylanwadu ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant (Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig, 2015).

[7] Dengys Huso, D. (2010) bod EMDR yn "broses therapiwtig sy'n defnyddio symudiadau'r llygaid, synau a symudiadau ailadroddus i helpu cleientiaid i brosesu a dod i delerau gydag atgofion trawmatig yn gynt na therapi sgwrsio yn unig".

Pasiwyd cyfreithiau i wahardd prynu gwasanaethau rhywiol yn Sweden, Norwy, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a Ffrainc, ac maent yn dangos rhywfaint o effaith addawol ar hunan adrodd gan ddynion am brynu gwasanaethau rhywiol a lefelau o buteindra ar y stryd a welir gan weithwyr proffesiynol (UE Norwy, 2014; SOU, 2010). Fodd bynnag, codwyd pryderon am effaith plismona cadarn ar fenywod yn gwerthu rhyw yn Norwy (Amnesty International, 2016) ac nid yw'n hysbys eto os yw'r polisi wedi dylanwadu ar ymddygiad ar-lein ac agweddau tuag at gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (Holger-Ambrose et al, 2013; Melrose, 2013).

Mae yna rywfaint o dystiolaeth o ymdrechion llwyddiannus i atal cam-drin plant yn rhywiol trwy dynnu i lawr, rhwystro safleoedd, defnydd helaeth o adnoddau diogelwch ar-lein a chydweithredu rhyngwladol sylweddol. Mae hwn yn cynnwys gwaith y Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol/Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein, a chyfranogiad yn y Gynghrair Fyd-eang a WePROTECT (Missing Children Europe, 2016; WePROTECT, 2015).

Mewn cyd-destunau sefydliadol eraill, mae ymdrechion atal sefyllfaol wedi bod yn fwy cyfyngedig i weithdrefnau gwiriadau cyn cyflogaeth, fetio a rhwystro staff. Er yn bwysig, dim ond yr isafswm o droseddwyr rhyw sydd eisoes yn hysbys neu wedi eu cael yn euog o droseddau all y rhain gwmpasu. Dengys ymchwiliadau yn yr Unol Daleithiau, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg ac Iwerddon i gam-drin sefydliadol mewn sefydliadau ffydd yr angen am ffocws ehangach ar ddiogelwch sefydliadol a rheoleiddio cyfleoedd ar gyfer cyswllt heb fonitro gyda phlant a phobl ifanc (Bohm et al, 2014; Terry ac Ackerman, 2008).

Ymchwil yn edrych ar natur ac i ba radd cam-drin plant yn rhywiol gan offeiriaid a diaconiaid Catholig yn yr Unol Daleithiau wedi dod o hyd i'r canlynol, bod ffactorau sefyllfaol a sefydliadol yn allweddol o ran creu risgiau ar gyfer plant, yn enwedig bechgyn, mewn sefydliadau ffydd:preifatrwydd yng nghyd-destun perthynas o bŵer, wedi eu cyfuno â ffactorau sefydliadol megis diffyg polisïau diogelu a methiant i gosbi troseddwyr.(John Jay College, 2004; Terry ac Ackerman, 2008). Un argymhelliad o'r ymchwil hwn oedd y gellid delio â rhywfaint o'r risgiau sefyllfaol trwy bolisi, er enghraifft, sicrhau nad yw clerigwyr ar eu pennau eu hunain gyda phlentyn yn ei gartref heb i rywun arall fod yn bresennol. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth ar os yw'r ymagwedd sefyllfaol wedi ei gweithredu'n helaeth mewn neu os yw wedi profi i fod yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn rhan o'r REA yn dynodi bod o fewn sefydliadau mai ymagweddau ataliol sefyllfaol ar ffurf gwiriadau cyflogaeth sydd wedi eu gwerthuso fwyaf ond yn llai effeithiol (Bohm et al, 2014).

Nodi, datgeliad, adrodd ac ymatebion

Mae tystiolaeth ar effaith adrodd gofynnol yn amrywio. Awgryma ymchwil yn

Awstralia y gall adrodd gofynnol gynyddu adroddiadau o gam-drin plant yn rhywiol, ond bod angen adnoddau atodol i reoli'r datgeliadau hyn. Dylid hefyd nodi, fodd bynnag, bod y nifer o achosion a ymchwiliwyd, ond na brofwyd hefyd wedi cynyddu (Mathew, Ju Lee a Norman, 2016). Ceir risg gydag adrodd gofynnol y bydd adnoddau a sylw proffesiynol yn cael ei arallgyfeirio o ymyraethau i sgrinio ac asesu (Llywodraeth EM, 2016), a bod teuluoedd yn cael eu niweidio gan ymchwiliadau amhriodol. Ar adeg yradroddiad hwn, nid oedd canlyniad ymgynghoriad 2016 y Swyddfa Gartref ar adrodd gofynnol wedi ei gyhoeddi.

Rheoleiddio a rheolaeth o droseddwyr

O gymharu ag awdurdodaethau eraill, ystyrir bod gan y Deyrnas Unedig fframwaith deddfwriaethol cryf i ymateb i droseddwyr rhyw (Cameron et al, 2015; Missing Children Europe, 2016). Cafodd deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ei hatgyfnerthu ymhellach diolch i newidiadau a gyflwynwyd gan strategaeth y llywodraeth *Taclo Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant* (Llywodraeth EM, 2011). Fodd bynnag, roedd rheolaeth o ymddygiad cyflawnwyr yn ffocysu'n bennaf ar droseddwyr rhyw risg uchel oedd eisoes wedi eu cael yn euog.
Er gwaethaf y twf mewn cyfraddau cofnodi ac erlyn, ceir tystiolaeth bod llawer o droseddau rhyw dan yr wyneb ac nad yw'r mwyafrif o gyflawnwyr cam-drin plant yn rhywiol yn destun ymchwiliad, erlyniad a chollfarn, yn arbennig cam-drin plant yn rhywiol yn amgylchedd y cartref (OCC, 2015). Yn y Deyrnas Unedig, yr Almaen a Sweden, mae sylw yn symud i edrych ar droseddwyr a asesir i fod ar lefel is, gan gynnwys rhai nad ydynt wedi eu cael yn euog (Brown et al, 2014; Cameron et al, 2015 - gweler Blwch 1, uchod). Mae angen mwy o waith ar ymatebion strwythurol effeithiol ar gyfer iechyd, addysg a gwaith cymdeithasol; rheoli camdrinwyr cyfoedion; gwella erlyniadau a defnydd o sancsiynau priodol ar gyfer troseddwyr rhyw mewn sefydliadau fel eglwysi a grwpiau ffydd.

Mae'n bwysig nodi nad yw ymchwil a pholisi ar rai ymyraethau troseddwyr rhyw mewn rhai awdurdodaethau wedi bod yn gytûn ar bob adeg. Er enghraifft, mae polisïau y gellid eu dehongli i fod yn gosbol ond boblogaidd, yn arbennig yn yr Unol Daleithiau, wedi profi i gael effaith gyfyngedig. Canfu gwerthusiadau o bolisïau megis cofrestru troseddwyr rhyw, cynlluniau hysbysu a chyfyngiadau ar breswylio nad oeddynt yn effeithiol o ran lleihau aildroseddu, ac y gallent mewn gwirionedd weithio yn erbyn adsefydlu troseddwyr rhyw mewn cymunedau (Bonner-Kidd, 2010; Letourneau et al, 2010; Sandler et al, 2008).

Mae tystiolaeth ynghylch rhaglenni trin troseddwyr rhyw yn dangos canlyniadau cymysg (Dennis et al, 2012; Långström, et al, 2013; Walton a Chou, 2015). Mae'r llenyddiaeth ar ganlyniadau triniaeth yn dangos bod rhaglenni yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os gallant ddelio â'r math o drosedd a lefel o risg statig, anghenion y

troseddwr sy'n tueddu i achosi troseddu[8], arddull dysgu a galluoedd (Hanson et al, 2009). Gwelwyd rhai negeseuon positif ynghylch ymgysylltu â throseddwyr mewn gwasanaethau triniaeth, gan ddangos bod trefnu a rheoli triniaeth yn ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i adael rhaglen yn gynnar neu aros arni (Drapeau et al, 2004; 2005). Mae ymagweddau cyfiawnder adferol i driniaeth troseddwyr rhyw megis *Circles of Support and Accountability* yn dangos canlyniadau positif o Awstralia (Daly, 2013) a'r Unol Daleithiau (Wilson et al, 2010), ond yn dal gyda lefelau uchel o athreuliad rhaglen. Mae yna raglenni tebyg yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig, ac mae tystiolaeth ar effaith yn debygol o dyfu.

Cefnogi dioddefwyr a goroeswyr

Ychydig o dystiolaeth sydd o effaith cynlluniau iawndal neu unioni llywodraethol ac anllywodraethol i ddioddefwyr ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Dim ond dau bapur yn cyfeirio at un astudiaeth empirig a ganfuwyd yn yr adolygiad hwn (y ddau gan Rassenhofer et al, 2015a a 2015b). Mae'r llenyddiaeth ddisgrifiadol yn amlinellu cyfyngiadau yng nghwmpas cynlluniau ac yn crybwyll cynlluniau cenedlaethol, megis yn Sweden a Gwlad yr Iâ a ystyrir i fod yn cynnig darpariaeth gymharol 'dda' (Cameron et al, 2015). Mae ymchwil dogfennol ar gynlluniau rhyngwladol yn amlygu amrywiaethau mewn ffocws a thaliadau ariannol (Daly, 2014). Ychydig iawn o ymchwil sydd ar farn goroeswyr sy'n blant ac oedolion ynghylch iawndal ac unioni. Dengys ymchwil gydag oedolion nad yw goroeswyr wedi eu hysgogi gan enillion ariannol, er bod nifer eisiau i sefydliadau gydnabod eu bai (Daly, 2014).

Ariannol: y trefniadau cyllido ac adnoddau ar gyfer sefydliadau a gwasanaethau perthnasol

Ataliad cychwynnol

Ychydig iawn o wybodaeth a ganfuwyd ar ddefnydd effeithiol o adnoddau ariannol ac eraill i atal ac ymateb i gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol mewn awdurdodaethau tu allan i Loegr. Mae angen gwaith pellach ar gost effeithlonrwydd gwahanol ymatebion. Mae casglu data dibynadwy a dilys safonol yn debygol o fod yn allweddol o ran datblygu asesiadau cyllidol amddiffynnol i ategu polisi atal.

Nodi, datgeliad, adrodd ac ymatebion

Pe byddai adrodd gofynnol yn cael ei gyflwyno yng Nghymru a Lloegr, mae'n debygol iawn y byddai angen adnoddau atodol i ddelio gyda'r adroddiadau cynyddol a gweithdrefnau sgrinio atodol a fyddai'n dilyn. Byddai'r goblygiadau cost yn ddibynnol ar natur y gyfundrefn adrodd ofynnol a gyflwynwyd, a gellid ei asesu o

[8] Mae anghenion sy'n tueddu i achosi troseddu yn nodweddion, elfennau neu broblemau sy'n gysylltiedig gyda thebygolrwydd unigolyn i aildroseddu. Gall anghenion fod yn statig (h.y. ffactorau nad ydynt yn newid megis oed pan gyflawnir y drosedd gyntaf) neu ddeinamig (h.y. ffactorau sy'n amrywio megis defnydd o sylweddau).

fewn cymunedau dethol.

Cefnogi dioddefwyr a goroeswyr

Y neges fwyaf amlwg a gododd o'r arolwg hwn ar faterion ariannol oedd y diffyg adnoddau ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth ac adfer i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae yna fylchau sylweddol yn argaeledd gwasanaethau cefnogaeth a therapiwtig perthnasol ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol sy'n blant yn y Deyrnas Unedig, ac mae cyllid ar gyfer gwasanaethau yn delio â risgiau arwyddocaol megis cam-drin domestig wedi lleihau (Allnock et al, 2010; Coy et al, 2007; Scott a Skidmore, 2006). Er y buddsoddwyd adnoddau atodol (Llywodraeth EM, 2015), mae colli cyllid ar gyfer gwasanaethau trais domestig yn debygol i gael effaith niweidiol ar argaeledd gwasanaeth. Yn fwy cyffredinol, mae adnoddau digonol ar gyfer hyfforddi gweithwyr proffesiynol ar draws pob math o sefydliad a sector yn rhan bwysig o weithrediad effeithiol. Awgryma ymchwil yr angen i atgyfnerthu a gloywi hyfforddiant gydag amser (Letourneau et al, 2016). Byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau a phroffesiynau adolygu digonoldeb hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gam-drin a chamfanteisio rhywiol. Gellid defnyddio'r bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd yn yr adolygiad hwn i hysbysu blaenoriaethau ar gyfer ariannu ymchwil yn y dyfodol.

Proffesiynol a gwleidyddol: arweinyddiaeth, materion proffesiynol ac ymarferol ar gyfer y rhai sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn sefydliadau perthnasol

Ataliad cychwynnol

Mae yna dystiolaeth cymharol dda, er wedi dyddio braidd, o Ganada a'r Unol Daleithiau bod rhaglenni addysg meithrin ac yn yr ysgol ar gam-drin plant yn rhywiol yn effeithiol o ran dysgu plant a phobl ifanc i gydnabod ymddygiad amhriodol a gwella eu gwybodaeth o hunanamddiffyn (Baker et al, 2013; Pitts, 2015; Pulido, 2015; Stanley et al, 2015; Tutty, 1997; Walsh et al, 2015; Zwi et al, 2007).

Mae ymchwil yn Awstralia a'r Unol Daleithiau yn cefnogi ‘ymagwedd ysgol gyfan’ yn cynnwys rhieni a grwpiau ffydd a chymunedol (Kenny et al, 2012; Smallbone a Rayment-McHugh, 2013; Stanley et al, 2015). Gellid datblygu ataliad sylfaenol sy'n ceisio lleihau risgiau ac adeiladu cryfderau ymysg y plant mwyaf bregus mewn sefydliadau trwy brofi a dilysu'r dulliau asesu risg sydd ar waith ar hyn o bryd. Nid yw asesiadau ar gyfer bregusrwydd i erledigaeth wedi eu dilysu ar hyn o bryd.

Mae adolygiad rhyngwladol o gam-drin plant mewn chwaraeon ar gyfer UNICEF (Brackenridge et al 2010) yn nodi'r Deyrnas Unedig, ynghyd â Chanada, Awstralia a'r Iseldiroedd fel enghreifftiau o arfer da mewn polisïau i daclo'r mater hwn. Mae darpariaethau yn cynnwys defnydd o gyrff cenedlaethol a lleol i ddarparu arweiniad ar ganllaw moesegol a strategaeth diogelu plant, a gwaith i godi ymwybyddiaeth y

cyhoedd ar y mater.

Pwysleisiodd ymchwil arall ar gyflwyno safonau rhyngwladol newydd ar gyfer diogelu plant mewn chwaraeon a ddatblygwyd gan y Grŵp Sefydlwyr Diogelu Plant mewn Chwaraeon Rhyngwladol (Mountjoy et al 2015) bwysigrwydd teilwra ymatebion i'r cyd-destun lleol. Mae mesurau diogelu'r model yn cynnwys sefydlu gweithdrefnau, darparu cyngor a chefnogaeth, arweiniad ar gyfer ymddygiad, gwaith partneriaeth, hyfforddiant effeithiol a monitro a gwerthuso. Ni welwyd unrhyw ymchwil ar effaith y safonau hyn yn yr adolygiad hwn, er y gallai hyn godi os gweithredir argymhellion monitro a gwerthuso mewn sefydliadau chwaraeon.

Nodi, datgeliad, adrodd ac ymatebion

Derbynnir yn eang y gall fod yn anodd nodi plant sy'n profi neu'n agored i gam-drin neu gamfanteisio rhywiol, oherwydd problemau i blant wrth ddatgelu a phroblemau gweithwyr proffesiynol o ran nodi ac adrodd. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o'r rhwystrau mae plant yn wynebu wrth siarad am gam-drin, a'u hyfforddi i adnabod arwyddion ar wahân i ddatgeliad gan y plentyn. Os y'i datgelir o gwbl, efallai na fydd datgeliad o brofiad cam-drin yn digwydd ar unwaith, gan na fydd plant o reidrwydd yn cydnabod eu profiad fel un o gam-drin ac y gallai 'dweud' fod wedi ei gyfyngu i arddangos arwyddion a symptomau (Cossar et al, 2013). Mae yna angen arbennig i nodi mewn gwasanaethau cymdeithasol plant, addysg ac iechyd gael ei ddeall fel proses o ofyn cwestiynau'n rhagweithiol, adeiladu perthynas gyda phlentyn neu berson ifanc bregus a chasglu gwybodaeth o ddetholiad o ffynonellau gydag amser (Gavril, 2012; Schaeffer et al, 2011).

O Awstralia a'r Unol Daleithiau, mae yna dystiolaeth y gall hyfforddiant, nodi rhagweithiol a hyrwyddo arbenigedd ac arfer da trwy dimau symudol arbenigol neu dasgluoedd mewn iechyd, cyfiawnder ac amddiffyn plant gael effaith bositif ar nodi ac adrodd (Bailey et al, 2015; Mace, 2015; McMahon-Howard a Reimer, 2013; Powell a Wright, 2012). Mewn gwasanaethau iechyd, gall defnydd o dechnolegau newydd megis *telefeddyginiaeth*[9] roi mynediad at sgiliau arbenigol (Miyamoto et al, 2014). Yn aml gall rhieni a gofalwyr chwarae rhan bwysig o ran cadw plant yn ddiogel ac mae gwaith addawol yn datblygu yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, ymagwedd diogelu perthynol Parents Against Child Sexual Exploitation (PACE) ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant (Palmer a Jenkins, 2014), fodd bynnag, mae angenymchwil pellach i werthuso'r prosiectau hyn yn gadarn a datblygu adnoddau priodol i gyfnogi ymarfer.

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod cefnogaeth i blant trwy gydol y broses erlyn a'r llys yn gyffredinol wael. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth addawol o effeithlonrwydd gwasanaethau amlddisgyblaethol wedi eu cyd-leoli megis y

[9] Cyfeiria telefeddyginiaeth at ddefnydd o dechnolegau gwybodaeth newydd ar gyfer cyflawni iechyd. Er enghraifft, defnyddio dolen fideo i weithiwr iechyd proffesiynol arbenigol yn ystod gweithdrefn ymchwiliol.

Canolfannau Eiriolaeth Plant Cenedlaethol yn yr Unol Daleithiau a'r Tai Plant (neu *Barnahus*) yng Ngwlad yr Iâ, ar draws Ewrop ac yn cael eu peilotio ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig (Benia et al, 2015; Cross et al, 2008; Jones et al, 2007; Lippert et al, 2009; Miller et al, 2009).

Blwch 3: **Ymarfer addawol - cefnogi dioddefwyr sy'n blant trwy'r *model Barnahus***

